

Blaenoriaethau'r Prif Weinidog newydd Papur briffio

Ebrill 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Blaenoriaethau'r Prif Weinidog newydd Papur briffio

Ebrill 2024

Awdur:

Michael Dauncey

Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn graffu gyffredinol ar **26 Ebrill 2024** gyda'r Prif Weinidog newydd, Vaughan Gething AS. Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu'r addewidion a wnaed gan Vaughan Gething yn ei ymgyrch arweinyddiaeth Llafur Cymru, a'r ymrwymïadau a wnaed ers iddo ddod yn Brif Weinidog.



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Maniffesto arweinyddiaeth Vaughan Gething	2
3. Datganiadau ers dod yn Brif Weinidog	6

1. Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn graffu gyffredinol ar **26 Ebrill 2024**. Dyma'r sesiwn gyntaf gyda'r Prif Weinidog newydd, Vaughan Gething AS, sy'n cynnwys cyfle i drafod ei flaenoriaethau a'i ymrwymadau. Bydd yn dilyn sesiwn graffu benodol gyda'r Prif Weinidog ar Blant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal.

Cyhoeddodd Vaughan Gething AS fanifesto yn ystod ei ymgyrch dros arweinyddiaeth Llafur Cymru, **"Dros Gymru, dros Lafur, drosoch chi"**. Cafodd ei gyhoeddi'n flaenorol ar ei wefan ond ymddengys nad yw bellach ar gael i'r cyhoedd. Cafodd **copi o'r manifesto** ei gyhoeddi fel rhan o agenda'r Pwyllgor ar gyfer cyfarfod 26 Ebrill.

2. Maniffesto arweinyddiaeth Vaughan Gething

Roedd **pum prif thema** ym maniffesto Vaughan Gething ar gyfer arweinyddiaeth Llafur Cymru, sy'n disgrifio'r rhain yn nhermau "gwerthoedd", "syniadau a pholisïau arloesol", a "blaenoriaethau a pholisïau". Caiff y rhain eu rhestru isod, ynghyd â'r ymrwymïadau a nodwyd yn ei faniffesto.

Cenedl iach: Gwasanaeth Iechyd Cymru sy'n ddiogel mewn dwylo cyhoeddus ac sydd bob amser yn cael blaenoriaeth yn y gyllideb. Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â gofal cymdeithasol sy'n addas ar gyfer ein dyfodol.

- Cyflwyno "Cyfamod GIG Cymru" newydd, gan ymgorffori egwyddorion craidd megis sicrhau bod GIG Cymru "yn ddiogel mewn dwylo cyhoeddus a chadw gwariant y pen ar iechyd a gofal cymdeithasol yn uwch nag yn yn Lloegr".
- Blaenoriaethu canlyniadau cleifion.
- Cefnogi a hyrwyddo arloesedd ym maes gofal iechyd.
- Buddsoddi mewn technoleg.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.
- System iechyd sy'n sensitif i rywedd ac yn ddiwylliannol gymwys.
- Cyflwyno Cynllun Iechyd Menywod.
- Gwneud cynnydd pellach tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol "addas at y diben".
- Edrych ar ehangu modelau gofal dan arweiniad y gymuned.
- Gwerthfawrogi a chefnogi gofalwyr di-dâl.
- Blaenoriaethu buddsoddi mewn iechyd meddwl.

Ffyniant gwyrdd: Creu swyddi gwyrdd wrth galon amddiffyn dyfodol Cymru. Pontio teg sy'n mynd i'r afael â thlodi tra'n amddiffyn ein planed, gyda swyddi da a chyfoeth cymunedol.

- Peidio byth â chytuno i drosglwyddo swyddi gweithwyr dur ac allyriadau Cymru dramor.
- Mabwysiadu dull gweithredu gweithredol o ran polisi diwydiannol gwyrdd.
- Gwneud diwygiadau beiddgar a systemig i'r fframweithiau cynllunio a

buddsoddi i ddatgloi twf gwyrdd.

- Cefnogi busnesau a gweithwyr Cymru i addasu i'r newid i sero net a ffynnu ynddo.
- Darparu "hybiau twf glân" newydd - clystyrau o fusnesau ecogyfeillgar sy'n pweru twf lleol a swyddi gwell.
- Peidio byth ag esgeuluso'r economi bob dydd hanfodol sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau beunyddiol mae pawb yn dibynnu arnynt.
- Sicrhau bod ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yng Nghymru o fudd i bobl yng Nghymru.
- Creu Cronfa Gwaith Teg newydd sy'n agored i geisiadau gan brosiectau sy'n ceisio cefnogi arferion gwaith teg.
- Gweithredu un o argymhellion allweddol yr adroddiad diweddar Datganoli a Gweithio yng Nghymru gan TUC Cymru drwy greu carreg filltir gwaith teg i fesur a gwella arferion gwaith teg.
- Dyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i weithwyr yng Nghymru a chyfeirio mwy o wariant caffael cyhoeddus at fentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.
- Cyflymu'r broses o gyflwyno canolfannau bancio.
- Datblygu Bil Natur Bositif newydd.
- Cryfhau camau gorfodi i ddiogelu yr amgylchedd, gan ddechrau gyda chreu corff llywodraethu amgylcheddol cwbl weithredol.
- Gwneud Cymru yn arweinydd o ran safonau lles anifeiliaid yn y DU drwy roi mwy o bwerau gorfodi i swyddogion yr RSPCA a gwahardd rhoi anifeiliaid anwes fel gwobrau.

Lle i'w alw'n gartref: Cyflymu adeiladu tai cymdeithasol. Trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy. Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gyda phwerau a chyllid wedi'u datganoli i lywodraeth leol.

- Blaenoriaethu adeiladu mwy o dai cymdeithasol.
- Mynd i'r afael â'r "argyfwng tai", gan roi datblygiadau mawr ar lwybr carlam drwy Dasglu Cartrefi Fforddiadwy.
- Ôl-osod y stoc tai presennol, gan dorri allyriadau carbon a biliau ynni cartrefi.
- Cryfhau sicrwydd a hawliau tenantiaid.
- Archwilio'r dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol ar reolaethau rhent, gan sicrhau bod rhenti'n deg i denantiaid, mewn ffordd nad yw'n lleihau nifer y cartrefi sydd ar gael i'w gosod.

- Ailwampio'r system lesddaliad yn llwyr fel y gall lesddeiliaid presennol brynu gyda'i gilydd yn haws a symud i gyfundaliad os dymunant.
- Parhau i drin mynd i'r afael â digartrefedd fel mater cenedlaethol.
- Parhau i gefnogi deiliaid morgeisi.
- Deddfu i reoleiddio'r rhwydwaith bysiau cyn diwedd tymor y Senedd hon.
- Cyflwyno masnachfreinio i ganiatáu ar gyfer trafnidiaeth integredig well.
- Ymchwilio i gynlluniau gostwng prisiau tocynnau, fel y mae cyllid yn caniatáu.
- Gweithio gyda phartneriaid i adeiladu rhwydwaith gwefru cenedlaethol i gefnogi gwefru cerbydau trydan.
- Ymrwymo i seilwaith teithio llesol, gan wella diogelwch.
- Datblygu pecyn o bwerau i lywodraeth leol yn rhanbarthau Cymru drwy Gydbwyllgorau Corfforedig, gan roi mwy o bwerau i gynghorwyr lleol.
- Sefydlu "Academi Greadigol Cymru" i gyflwyno hyfforddiant sgiliau yn y diwydiannau creadigol.
- Rhoi mwy o flaenoriaeth i iechyd a llesiant yn sectorau'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon, drwy "Bond Llesiant Cymru".
- Cefnogi parhad a thwf y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yng Nghymru.

Dyfodol uchelgeisiol: Cyfleoedd addysgol i bobl o bob oed a chyfnod mewn bywyd. Defnyddio dylanwad swyddfa'r Prif Weinidog i sicrhau rhagoriaeth yn ein hysgolion a'n colegau gan weithio gydag athrawon a staff cymorth ysgolion.

- Rhoi dechrau cryf i bob plentyn yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar y 1,000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn.
- Sicrhau rhagoriaeth mewn addysg, cau'r bwlch cyrhaeddiad a mynd i'r afael ag absenoldeb ac ymddygiad aflonyddgar.
- Paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith.
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan allweddol o addysg.
- Gwneud ail-fuddsoddi mewn prentisiaethau yn flaenoriaeth ar gyfer cronfeydd sy'n cymryd lle rhai'r UE.
- Cefnogi colegau addysg bellach i hyfforddi pobl yn y sgiliau gwyrdd sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.
- Gwneud mwy i gadw a datblygu talent a sgiliau amrywiol ledled Cymru.

- Rhoi blaenoriaeth i ddysgu hyblyg am ddim i weithwyr ar gyflog isel.

Cymru gryfach: Mwy o bwerau i Gymru a ledled Cymru. Cenedl uchelgeisiol a blaengar yn cymryd ei lle ar lwyfan y byd gyda dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg.

- Ymrwymo i adeiladu Cymru wrth-hiliol, gan gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol hyd at ddiwedd y cyfnod dwy flynedd ym mis Mehefin 2024, yna adeiladu ar ddysgu gyda set newydd o gamau gweithredu "uchelgeisiol".
- Helpu i wneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.
- Gwthio i greu Gymru sy'n ymdrechu dros hawliau a chydaddoldeb pob person anabl drwy barhau i asesu dichonoldeb gwneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn gyfraith.
- Arwain llywodraeth ffeministaidd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Parhau i fod â Chabinet cytbwys rhwng y rhywiau.
- Ymgynghori ar gynlluniau i yrru safonau uwch mewn cyrff cyhoeddus.
- Parhau i fynd i'r afael â thlodi plant a gwneud cynnydd ar system fudd-daliadau Cymru.
- Archwilio sut i ddod â gwasanaethau at ei gilydd i greu tocyn digidol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.
- Cadw statws Cenedl Noddfa Cymru.
- Cefnogi datganoli cyfiawnder a phlisma, yn ogystal â datganoli pwerau benthyca darbodus.
- Bod â Gweinidog Gogledd Cymru a swyddfa a thîm o swyddogion yng Ngogledd Cymru o adrannau allweddol Llywodraeth Cymru.
- Sefydlu Swyddfa'r Prif Weinidog newydd, sy'n canolbwyntio ar gyflawni.
- Cefnogi creu ysgrifenyddiaeth annibynnol i "sichrau na all Llywodraeth y DU barhau i gamdrin y cenhedloedd datganoledig" (gan ddefnyddio dosbarthiad HS2 fel prosiect Lloegr yn unig fel enghraifft o wrthod cyllid i Gymru).
- Ymrwymo i sichrau bod Cymru'n cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Hyrwyddo asedau diwylliannol Cymru, gan gynnwys gwthio am roi statws gwarchoddedig UNESCO i Eisteddfodau.

3. Datganiadau ers dod yn Brif Weinidog

' **Wrth gyhoeddi ei Gabinet**, dywedodd y Prif Weinidog newydd:

Yn benodol, rwy'n falch o benodi Gweinidog dros Iechyd Meddwl a'r Blynnyddoedd Cynnar er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf bywyd pob plentyn.

Bydd y tîm Gweinidogol hwn yn ateb galwad y genhedlaeth nesaf i greu Cymru gryfach, decach, wyrddach. Byddwn yn gweithredu i gryfhau'r economi drwy roi cyfleoedd i bawb, a glynu'n gadarn wrth ein hymrwymiad i bontio'n deg at sero net. I adlewyrchu ein nod o sicrhau ffyniant gwyrdd, rydym wedi creu swydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg.

Ni roddodd Vaughan Gething wybodaeth fanwl am ymrwymadau polisi penodol yn ei **araith yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth**, a ddaeth wedi i'r Senedd ei enwebu'n Brif Weinidog. Yn hytrach, canolbwyntiodd ar y ffordd y byddai'n mynd ati i ymdrin â'r rôl.

Yn dilyn hynny, gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Ebrill 2024 ynghylch "cyflawni blaenoriaethau Cymru"**. Tynnodd sylw at y cyfarfodydd yr oedd wedi'u cynnal yn ei wythnosau cyntaf yn y swydd. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd gyda Chymdeithas Feddygol Prydain i "draffod streiciau'r GIG", gydag undebau ffermio, a chyda gweithwyr dur. Awgrymodd fod y rhain wedi rhoi'r cyfle i ymgysylltu ar "faterion anodd sy'n gofyn am weithio mewn partneriaeth a chyfaddawdu i ddod o hyd i ateb ar gyfer y dyfodol". Aeth yn ei flaen i ddweud:

Roedd yr ymrwymadau cynnar hyn yn flaenoriaeth, ac maen nhw, rwy'n gobeithio, yn arwydd o'r buddsoddiad y bydd Gweinidogion ar draws Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnes difrifol deialog, trafod a gweithio mewn partneriaeth.

Cyfeiriodd y Prif Weinidog at "ddifrifoldeb y sefyllfa ariannol" a'r angen i "ganolbwyntio ar gyfres o flaenoriaethau craidd". Hefyd, tynnodd sylw at y canlynol:

- Mae'r **GIG a lleihau amseroedd** aros yn "brif flaenoriaeth". Bydd gofal cleifion "yn ganolog i bopeth" a bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol yn ei chyllidebau.
- Bydd **codi plant allan o dlodi** "wrth wraidd cenhadaeth Llywodraeth Cymru", drwy adnewyddu ffocws ar y **1,000 diwrnod cyntaf ym mywyd plentyn**. Bydd hyn yn gofyn am "ymateb hirdymor a chydlynol" ar draws y Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.

- **Gwelliant parhaus mewn cyrhaeddiad addysgol** fydd y flaenoriaeth gyntaf o ran sicrhau rhagoriaeth mewn ysgolion, a bydd gwella presenoldeb hefyd yn flaenoriaeth.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu “**adeiladu economi gwyrddach**” lle mae pobl yn dod o hyd i “waith da, diogel”. Bydd hybiau “twf glân newydd” yn darparu swyddi sy'n talu'n well, bydd “benthyciadau busnes gwyrdd” yn helpu busnesau i ddatgarboneiddio, a bydd diwygiadau cynllunio a “buddsoddiad uchelgeisiol” yn “datgloi twf gwyrdd”.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn “**newid y ffordd y mae'r system drafnidiaeth gyhoeddus yn gweithio yng Nghymru yn sylweddol**”, gan gynnwys Bil Bysiau newydd a fydd yn symud i ffwrdd o system sydd wedi'i phreifateiddio yn seiliedig ar elw i system sy'n canolbwyntio ar anghenion teithwyr.

Wrth grynhoi, dywedodd y Prif Weinidog:

Lleihau rhestrau aros y GIG, cefnogi plant yn ystod y blynyddoedd cynnar, rhagoriaeth addysgol yn ein hysgolion, swyddi gwell, gwyrddach, gwell cysylltiadau trafndiaeth ledled y wlad—dyma flaenoriaethau Cymru, a dyma ein blaenoriaethau ni.

Ychwanegodd ei fod wedi sefydlu rôl newydd yn **Swyddfa'r Cabinet**, a fydd yn cefnogi'r Prif Weinidog a'r Cabinet i gyflawni blaenoriaethau strategol. Penodwyd Rebecca Evans yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet.